


**DEWCH, dewch – digwyddiad newydd a fydd yn dod â hwyl a gemau i dref glan y môr.**

Mae'r Rhyl i gynnal ei gŵyl Calan Mai ei hun, dathliad glan y môr traddodiadol a fydd y cyn-taf o'i fath ar gyfer yr ardal.

Mae'n cael ei gynnal gan Gyngor Tref y Rhyl – Calan Mai y Maer, gydag amrywiaeth lliwgar o ddigwyddiadau.

Pynsh a Jiwdi, cerddwyr stiltiau, actau syrcas, clowns, bachu chwaden a stondinau hoopla – dim ond rhai o'r gweithgareddau a fydd ar gael. Bydd croeso hefyd yn ôl i'r Sol Cinema, y sinema fechan sy'n gweithio gydag egni'r haul, a oedd yn llwyddiant mawr pan ddaeth yma am y tro cyntaf yn 2016.

Bydd band drymio lliwgar Batala Bangor yn ymuno â'r hwyl gyda chystadleuaeth dyn cryf ar gyfer oedolion a phlant. Bydd act arbennig gwneud swigod, cerflun byw a pheintio wynebau yn cwblhau pethau.

Bydd y digwyddiad yn cloi blwyddyn y Cynghorydd Alan James fel maer.

Meddai ef: "Y digwyddiad Calan Mai hwn yw ein diolch i bobl y Rhyl. Mae llawer o newid yn digwydd yn y dref a gwaith datblygu yn mynd rhagddo, ac rydym eisiau i hyn fod nid yn unig yn ddathliad o'r Rhyl ond hefyd yn ddigwyddiad cymunedol i ddiolch i bobl am eu hamynedd yn ystod y cyfnod adfywio.

+44 (0) 1745 889577
+44 (0) 7712 475576
rachael@gunsmokecommunications.co.uk
www.gunsmokecommunications.co.uk
@GunsmokeComms
GunsmokeCommunications

Mwy/….

-2-

"Rydym yn gwybod bod llawer i'w wneud o hyd, ond roeddem eisiau trefnu diwrnod arbennig i'n tref, digwyddiad gyda rhywbeth i bawb. Mae'r holl weithgareddau yn rhad ac am ddim, ac mae rhai na welwyd yn y Rhyl o'r blaen."

Cynhelir y digwyddiad ar y Stryd Fawr gyda'r lleoliad wedi ei ddewis i gefnogi'r economi lleol. Bydd cynghorwyr y dref wrth law i gefnogi'r gweithgareddau.

"Fel pob Stryd Fawr, mae'r Rhyl yn wynebu anawsterau, ond trwy gynnal digwyddiadau yma, gobeithio y medrwn ddenu pobl i'r dref sydd, yn ei dro, yn cefnogi masnach leol, nid yn unig ar y Stryd Fawr ond ledled y Rhyl.

"Yn ystod fy mlwyddyn fel maer, rwyf wedi cael y fraint o gyfarfod cymaint o fudiadau, grwpiau a phobl angyhoel yn y Rhyl. Mae Calan Mai y Maer yn gyfle i ni gael hwyl gyda'n gilydd," ychwanegodd y Cynghorydd James.

Bydd y digwyddiad hwn, sy'n rhad ac am ddim, yn rhedeg rhwng 11am-4pm ar ddydd Sadwrn Mai 5.

**Diwedd**

+44 (0) 1745 889577
+44 (0) 7712 475576
rachael@gunsmokecommunications.co.uk
www.gunsmokecommunications.co.uk
@GunsmokeComms
GunsmokeCommunications